

COD YMDDYGIAD AELODAU BWRDD EIN RHYL

1. PWRPAS

- 1.1 Mae'r Cod Ymddygiad hwn yn nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan holl aelodau Bwrdd Ein Rhyl. Mae'n cefnogi'r Cylch Gorchwyl ac yn anelu at sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu gydag uniondeb, tryloywder a pharch at ei gilydd, gan gynnal cyfrinachedd a diogelu uniondeb ei brosesau gwneud penderfyniadau.

2. YMDDYGIAD

- 2.1 Disgwylir i holl aelodau Bwrdd Ein Rhyl gadw at Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (a elwir yn Egwyddorion Nolan):

Anhunanoldeb - Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd yn unig.

Uniondeb - Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus osgoi rhoi eu hunain dan unrhyw rwymedigaeth i bobl neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu'n amhriodol arnynt yn eu gwaith. Ni ddylent weithredu na gwneud penderfyniadau er mwyn elwa'n ariannol neu gael budd materol arall iddyn nhw eu hunain, eu teulu neu eu ffrindiau. Mae'n rhaid iddynt ddatgan a phenderfynu ynghylch unrhyw fuddion a pherthnasoedd.

Gwrthrychedd - Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau'n ddiduedd, yn deg ac ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu na rhagfarn.

Atebolrwydd - Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd o ran eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt fod yn agored i'r mesurau archwilio sy'n ofynnol i sicrhau hyn.

Agoredrwydd - Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw. Ni ddylai gwybodaeth gael ei chadw oddi wrth y cyhoedd oni bai bod rhesymau clir a chyfreithiol dros wneud hynny.

Gonestrwydd - Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod yn onest.

Arweinyddiaeth - Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus arddangos yr egwyddorion hyn yn eu hymddygiad eu

hunain. Dylen nhw hyrwyddo'r egwyddorion yn frwd a'u cefnogi'n gadarn a bod yn barod i herio unrhyw ymddygiad gwael.

2.2 Gweithredu er budd gorau Y Rhyl a'i chymunedau.

2.3 Diogelu enw da, cyfrinachedd ac uniondeb Bwrdd Ein Rhyl bob amser.

3. PRESENOLDEB AC YMDDYGIAD MEWN CYFARFODYDD

3.1 Disgwylir i aelodau:

- Fynychu cyfarfodydd yn rheolaidd.
- Hysbysu'r Ysgrifennydd o leiaf 24 awr cyn y cyfarfod os na allant fynychu.
- Cyfrannu'n weithredol ac yn barchus at drafodaethau, penderfyniadau a dod i gonsensws.
- Parchu pob cyfranogwr a'u barn.
- Osgoi defnyddio'r fforwm am resymau personol, gwleidyddol neu sefydliadol.

4. CYFRINACHEDD

4.1 Bydd gofyn i aelodau Bwrdd Ein Rhyl gynnal cyfrinachedd pob mater a drafodir yng nghyfarfodydd y Bwrdd a dilyn protocolau cyfathrebu y cytunwyd arnynt bob amser. Bydd hyn yn sicrhau y gall trafodaethau agored a thryloyw ddigwydd ac yn lleihau'r risg o wneud cyhoeddiadau cynamserol neu allan o gyd-destun.

4.2 Rhaid i aelodau'r bwrdd osgoi gwneud sylwadau cyhoeddus ar faterion sy'n cael eu hystyried.

5. PROTOCOL CYFATHREBU

5.1 Bydd y Cadeirydd, mewn trafodaeth â Chyngor Sir Dinbych, yn cytuno ar yr holl gyfathrebiadau ffurfiol gan gynnwys cymeradwyo nodiadau cyfarfodydd, datganiadau i'r wasg a chyfathrebiadau cyfryngau cymdeithasol.

5.2 Ni ddylai aelodau siarad ar ran y Bwrdd oni bai eu bod wedi cael caniatâd i wneud hynny.

5.3 Ni chaniateir sylwebu na rhyddhau gwybodaeth yn anffurfiol, gan gynnwys dyfalu neu rannu cynnwys cyfarfodydd yn ddetholus.

6. TORRI'R COD YMDDYGIAD

6.1 Gall torri'r cod ymddygiad arwain at eich tynnu oddi ar y Bwrdd.

7. CYDNABYDDIAETH

7.1 Rhaid i bob aelod gadarnhau yn ysgrifenedig eu bod wedi darllen, deall a chytuno i gadw at y Cod Ymddygiad hwn a'u bod yn derbyn eu cyfrifoldeb i ddiogelu uniondeb Bwrdd Ein Rhyl.